# Fframwaith Cwricwlwm ar gyfer Plant a Phobl Ifanc â Nam ar y Golwg (CFVI)

## Canllaw i rieni a gofalwyr



Datblygwyd gyda

RNIB Cymru
Golwg gwahanol

UNIVERSITY OF BIRMINGHAM


view

TPT Thomas Pocklington Trust

# Cyflwyniad

Gall y Fframwaith Cwricwlwm ar gyfer Plant a Phobl Ifanc â Nam ar y Golwg (CFVI) eich helpu chi i ddeall a siarad am anghenion eich plentyn a'i gefnogi ar ei siwrnai yn y byd addysg ac i fyd oedolion cynnar.

**Ffigur 1:** Sut a phryd gall y CFVI helpu: rhai mannau cychwyn i rieni / gofalwyr



# Cynnwys


2 Cyflwyniad
3 Am y canllaw hwn
4 EEsbonio'r Fframwaith Cwricwlwm ar gyfer Plant a Phobl Ifanc â Nam ar y Golwg (CFVI)
7 Beth yw 11 maes y CFVI?
9 Sut gall rhieni a gofalwyr ddefnyddio'r CFVI
10 Cyfarfod gweithwyr proffesiynol
11 Meysydd cyffredin
12 Pontio llyfn
12 Dysgu gartref
13 Cydweithio
13 Mwy o help
14 Am yr Awduron
15 Cyfeiriadau


# Am y canllaw hwn

Rydym wedi ysgrifennu'r canllaw hwn gyda help grŵp o rieni i egluro cynnwys a diben y CFVI. Rydym eisiau i rieni a gofalwyr ddeall y gefnogaeth ychwanegol sydd ar gael i'w plentyn a rhoi'r hyder a'r iaith iddynt allu trafod addysg eu plentyn gydag athrawon a gweithwyr proffesiynol eraill.

Dylid defnyddio'r canllaw hwn ochr yn ochr â'r CFVI ac adnoddau ategol eraill, y gellir eu lawrlwytho o

**www.rnib.org.uk/cfvi**



# EEsbonio'r Fframwaith Cwricwlwm ar gyfer Plant a Phobl Ifanc â Nam ar y Golwg (CFVI)

Wedi'i lansio ym mis Mawrth 2022, mae'r Fframwaith Cwricwlwm ar gyfer Plant a Phobl Ifanc â Nam ar y Golwg yn nodi ac yn egluro'r gefnogaeth sydd ei hangen ar blant a phobl ifanc 0 i 25 oed â nam ar eu golwg er mwyn iddynt gael mynediad teg a chyfartal i addysg. Rydym wedi ei lunio, gydag amrywiaeth o bartneriaid, ar ôl ymgynghori'n drylwyr â gweithwyr proffesiynol arbenigol, pobl ifanc a rhieni / gofalwyr.

Drwy gydol y canllaw hwn, byddwn yn cyfeirio at y Fframwaith Cwricwlwm ar gyfer Plant a Phobl Ifanc â Nam ar y Golwg fel CFVI neu'r Fframwaith.

**Mae gan y Fframwaith dri nod allweddol:**


1. Nodi'r sgiliau allweddol sydd eu hangen ar blant a phobl ifanc sydd â nam ar eu golwg.
2. Rhoi gwybod i bob teulu a gweithiwr proffesiynol bod angen dysgu sgiliau arbennig i blant a phobl ifanc â nam ar eu golwg er mwyn iddynt allu cael mynediad i addysg a dod mor annibynnol â phosibl.
3. Ei gwneud yn haws i bawb gynllunio gyda'i gilydd sut a phryd ddylid addysgu'r sgiliau hyn a phwy ddylai eu haddysgu.

Mae'r CFVI yn cynnwys 11 maes sydd wedi'u nodi fel sail i'r Fframwaith hwn ac sy'n ceisio cynnwys elfen bwysig o brofiad addysgol a chanlyniadau plant a phobl ifanc â nam ar eu golwg. Mae Maes 1 yn canolbwyntio ar yr hyn y gellir ei wneud i wneud yr amgylchedd, yr adnoddau a'r gweithgareddau dysgu yn hygyrch i'r plentyn / person ifanc, tra bo meysydd 2 i 11 yn seiliedig ar sgiliau arbenigol y gellir eu haddysgu i'r plentyn / person ifanc. Drwy ddeall y gwahanol feysydd dysgu ac edrych ar y CFVI ar y cyd ag athrawon, rydym yn gobeithio y bydd rhieni a gofalwyr yn teimlo'n fwy hyderus yn siarad am sut hoffent i'w plentyn gael ei gynnwys mewn addysg a'r byd ehangach.

## Pam mae'r dull arbenigol yn helpu plant i ennill y sgiliau a'r annibyniaeth sydd arnynt eu hangen

Mae'r CFVI yn dilyn y model 'mynediad i ddysgu – dysgu i fynediad', **McLinden, M., Douglas, G., Hewett, R., Cobb, R., Keil, S., Lynch, P., Roe, J a Stewart Thistlethwaite, J.** (2022) sy'n seiliedig ar y syniad y bydd y ffocws, dros amser, yn symud o gefnogaeth a ddarperir yn uniongyrchol i'r plentyn / person ifanc ('mynediad i ddysgu') i'r plentyn neu berson ifanc yn datblygu'r sgiliau penodol eu hunain. Bydd y gefnogaeth wedyn yn anuniongyrchol, fel bod y person ifanc yn gallu gweithredu a dysgu'n fwy annibynnol ('dysgu i fynediad').

**Ffigur 2:** Y model Mynediad i Ddysgu / Dysgu i Fynediad:




**Annibyniaeth gynyddol:** Pwyslais ar feysydd cwricwlwm 'ychwanegol'

**Llwybr addysgol:** Lefel oedran / datblygiad y dysgwr

**Mynediad i ddysgu:**

- "Sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn cael mynediad teg a'r mynediad gorau posibl at addysg".
- Beth mae hyn yn ei olygu: dylid darparu amgylchedd dysgu priodol i blant; bydd unrhyw gefnogaeth ac addasiadau yn cael eu teilwra i'w hanghenion unigol.
- Un enghraifft o hyn fyddai darparu llyfrau darllen print bras.

**Dysgu i fynediad:**

- "Sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn cael cyfleoedd i ddatblygu eu llais a'u hannibyniaeth eu hunain".
- Beth mae hyn yn ei olygu: dylid addysgu'r sgiliau sydd arnynt eu hangen i blant, fel technoleg a symudedd, i ddod mor annibynnol â phosibl.
- Un enghraifft o hyn yw gallu defnyddio chwyddwydr yn annibynnol.



# Beth yw 11 maes y CFVI?

Mae'r Fframwaith yn cwmpasu 11 maes, sy'n nodi ystod o sgiliau sy'n bwysig ar gyfer datblygiad plant a phobl ifanc â nam ar eu golwg. Wrth gwrs, ac eithrio Maes 1, nid yw popeth sydd wedi'i restru'n berthnasol i bob plentyn neu berson ifanc ar unrhyw adeg benodol.

**Maes 1: Hwyluso Byd Cynhwysol**

Mae Maes 1 yn wahanol i'r meysydd eraill gan ei fod yn canolbwyntio ar yr hyn sydd angen ei sefydlu i sicrhau nad oes unrhyw rwystrau i ddysgu neu gyfranogiad ar gyfer plant a phobl ifanc â nam ar eu golwg.

**Maes 2: Datblygiad Synhwyraidd**

Helpu plant a phobl ifanc i ddefnyddio a datblygu eu synhwyrau.

**Maes 3: Cyfathrebu**

Helpu plant a phobl ifanc i ddatblygu eu sgiliau i gyfathrebu, chwarae a gweithio gydag eraill.

**Maes 4: Llythrennedd**

Cefnogi plant a phobl ifanc i ddatblygu sgiliau cyfathrebu effeithiol drwy wrando, siarad, darllen ac ysgrifennu.

**Maes 5: Cymhwysedd: Cyfeiriadedd a Symudedd**

Cefnogi plant a phobl ifanc i allu symud yn ddiogel drwy eu byd mor annibynnol â phosibl.

**Maes 6: Cymhwysedd: Sgiliau Byw yn Annibynnol**

Cefnogi plant a phobl ifanc i ddatblygu'r sgiliau o ddydd i ddydd sydd arnynt eu hangen i fyw bywyd mor annibynnol â phosibl.

**Maes 7: Sicrhau Gwybodaeth**

Addysgu plant a phobl ifanc i gael mynediad at, cynhyrchu a rheoli gwybodaeth yn annibynnol.

**Maes 8: Technoleg**

Helpu plant a phobl ifanc i ddefnyddio technoleg yn annibynnol.

**Maes 9: Iechyd: Lles Cymdeithasol, Emosiynol, Meddyliol a Chorfforol**

Helpu plant a phobl ifanc i aros yn iach.

**Maes 10: Cymdeithasol, Chwaraeon a Hamdden**

Sicrhau bod plant a phobl ifanc yn gallu ymuno â gweithgareddau cymdeithasol, chwaraeon a hamdden.


**Maes 11: Paratoi ar gyfer Bod yn Oedolyn**

Cefnogi plant a phobl ifanc i baratoi ar gyfer eu bywydau ar ôl addysg orfodol a gwneud penderfyniadau ar gyfer eu dyfodol.

Mae'r meysydd dysgu'n cael eu hesbonio'n fanylach yn y CFVI, y gellir ei lawrlwytho o

**www.rnib.org.uk/cfvi**

# Fframwaith Cwricwlwm ar gyfer Plant a Phobl Ifanc â Nam ar y Golwg




**Ffigur 3:** Fframwaith Cwricwlwm ar gyfer Plant a Phobl Ifanc â Nam ar y Golwg (CFVI)

# Sut gall rhieni a gofalwyr ddefnyddio'r CFVI

Nid yw llywio system addysg y DU yn hawdd. Mae llawer o wybodaeth i'w deall – gwahanol fathau o asesu, arholiadau, cwricwlwm, opsiynau a mwy – ac, fel rydych chi'n dod i arfer â'r derminoleg a'r drefn arferol, gall newid ysgol neu hyd yn oed grŵp blwyddyn arwain at gyfres newydd o heriau.


Pan fydd gennych chi blentyn ag anabledd, mae'r system hon, sy'n gallu dechrau o enedigaeth a pharhau nes bod yn oedolyn, yn dod yn fwy cymhleth fyth. Mae bod yn ymwybodol o'r cylch parhaus o asesiadau, cynllunio a chyfarfodydd yn rhywbeth y mae rhieni a gofalwyr plant â nam ar eu golwg yn ei ddweud sy'n anodd wrthym ni yn aml.

"Rydw i'n gwybod pa mor gymhleth ydi'r system cefnogi addysg a faint o botensial sydd i bethau gael eu methu ac i fy mab i fynd ar ei hôl hi. Rydw i'n teimlo bod y CFVI yn tynnu sylw at bwysigrwydd ymyrraeth gynnar a, phe bai hyn wedi bod yn ei le ar gyfer fy mab i, byddai wedi ei helpu i gael y gefnogaeth gywir yn gynharach."

Gall y CFVI helpu rhieni a gofalwyr i ddeall y llwybrau cefnogi ar gyfer eu plentyn neu berson ifanc a'r gwasanaethau a allai fod yn gysylltiedig â darparu'r gefnogaeth honno.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am gefnogaeth i blant â nam ar eu golwg, gan gynnwys swyddogaethau a chyfrifoldebau gweithwyr proffesiynol gwahanol, yn

**rnib.in/SEN_Inclusion**



## Cael y pethau sylfaenol yn gywir

Mae Maes 1 y CFVI – 'Hwyluso Byd Cynhwysol' – yn nodi'r egwyddorion cyffredinol mae'r CFVI yn seiliedig arnynt. Wrth galon y maes hwn mae ffocws ar sicrhau bod amgylcheddau ffisegol a chymdeithasol yn hygyrch ac yn gynhwysol i blant a phobl ifanc â nam ar eu golwg.

Mae'n ofynnol i leoliadau addysg fod yn gwbl gynhwysol i bob plentyn a pherson ifanc; un man cychwyn da ar gyfer hyn yw sicrhau bod yr holl staff wedi cael hyfforddiant ymwybyddiaeth weledol. Ni fydd pob un yn gofyn am ddealltwriaeth fanwl o anghenion cefnogi plentyn ond mae'n gwbl resymol disgwyl bod gan unrhyw un sy'n cwrdd â'ch plentyn yn ystod ei ddiwrnod ymwybyddiaeth sylfaenol o leiaf o effaith nam ar y golwg.

Yn ogystal â gweithio gyda chi a'ch plentyn, mae'r arbenigwyr nam ar y golwg yno i gefnogi lleoliadau addysg a gallant drefnu i hyfforddiant staff gael ei gynnal, felly mae'n iawn cael y sgwrs hon gydag Athro Cymwys Plant a Phobl Ifanc â Nam ar y Golwg (QTVI) eich plentyn neu Arbenigwr Cymhwyso Cymwys Cofrestredig (RQHS).

**"Mae'n bwysig oherwydd, os nad yw'r athrawon yn cael hyn, rydyn ni bob amser yn chwarae dal i fyny gyda phobl sydd ddim hyd yn oed ar yr un dudalen."**

# Cyfarfod gweithwyr proffesiynol

Gall cyfarfod gweithwyr proffesiynol i drafod anghenion a chynnydd eich plentyn fod yn heriol. Mae rhieni a gofalwyr yn dweud wrthym y gall hon fod yn broses anodd weithiau, sy'n cynnwys llawer o derminoleg gymhleth. Mae rhai yn dweud eu bod yn methu gwybod beth i'w ddweud, a bod teimlo eu bod yn gorfod eiriol dros eu plentyn drwy'r amser yn gallu achosi straen emosiynol.

**"Rydych chi'n meddwl i chi'ch hun, dyma ni eto. Wrth i'ch plentyn symud ymlaen, mae'r cyfarfodydd yma'n gallu bod yn anodd. Gyda'r arweiniad yma, rydych chi'n gwybod beth i'w ddweud a sut i eirio pethau. Mae'n rhoi hyder i chi."**

Gallai cael y CFVI wrth law, a pharatoi cwestiynau allweddol i'w gofyn ymlaen llaw, eich helpu i deimlo'n fwy cyfforddus a hyderus wrth fynd i'r cyfarfodydd hyn. Ar y dudalen ganlynol, rydym yn darparu rhai enghreifftiau o gwestiynau y gallech eu gofyn pan fyddwch yn cyfarfod â gweithwyr addysg proffesiynol. Nid yw'r rhestr hon yn hollgynhwysfawr ond mae wedi'i chynllunio i'ch helpu chi i ystyried y mathau o gwestiynau y gallech eu gofyn, a sut gallwch ddefnyddio'r CFVI i'ch helpu gyda hyn.

# Meysydd cyffredin

Mae rhai cwestiynau allweddol sy'n berthnasol ar draws y gwahanol feysydd yn cynnwys y canlynol:

- Sut ydych chi wedi gwneud yr ystafell ddosbarth / ysgol / amseroedd cymdeithasol yn hygyrch?
- Pa hyfforddiant mae'r staff wedi'i gael?
- Pa system sydd yn ei lle i ddarparu adnoddau hygyrch?
- Oes gan fy mhlentyn yr holl dechnoleg y mae arno ei hangen i'w defnyddio mewn gwersi?




**"Addysg yw lle mae ein plant ni'n treulio'r rhan fwyaf o'u hwythnos. Os nad yw'r oriau maen nhw'n eu treulio yn yr ysgol yn mynd yn dda, gall hyn gael effaith andwyol ar bob rhan o'u bywydau."**

## Yr 11 Maes yn y Fframwaith

Gan ddibynnu ar oedran eich plentyn neu ei gyfnod addysgol, efallai y byddwch eisiau teilwra eich cwestiynau i'r Meysydd Dysgu penodol. Gallech ofyn:

- Pa gynnydd sydd wedi'i wneud yn y maes hwn eleni?
- Pa gefnogaeth sydd ar y gweill i sicrhau bod cynnydd yn cael ei wneud yn y maes hwn y flwyddyn nesaf?
- Pwy fydd yn darparu'r gefnogaeth a pha mor aml?
- Fel rhiant / gofalwr, sut gallaf i gefnogi fy mhlentyn?

Bydd canolbwyntio ar 'nawr' a 'nesaf' yn rhoi syniad clir i chi o'r cynnydd mae eich plentyn yn ei wneud ym mhob maes. Dylai deall y gefnogaeth mae'n ei chael, a sut gallai hyn newid ac addasu, helpu pawb i chwarae eu rhan i sicrhau bod eich plentyn yn gweithio tuag at ei nodau unigol ei hun.

**"O ganlyniad i'r sgwrs yma, cytunwyd i roi'r gorau i symudedd, a oedd yn beth positif... mae ganddo sgiliau ffon gwych, ond roedd yn dod yn frwydr go iawn."**

## Pontio llyfn

Os yw eich plentyn neu berson ifanc yn nesáu at bwynt pontio – er enghraifft, newid ysgol neu gyfnod newydd yn ei addysg – gallech ofyn y canlynol:

- A fydd fy mhlentyn angen addasiadau i fwy o adnoddau neu wahanol adnoddau neu offer yn y lleoliad newydd / cam addysg nesaf?
- Pwy sy'n arwain ar drefniadau mynediad arholiadau?
- Pwy fydd yn trefnu hyfforddiant i'r staff yn y lleoliad newydd?
- Pwy fydd yn sicrhau bod yr addasiadau angenrheidiol yn cael eu gwneud i'r amgylchedd newydd?
- A ddylai fy mhlentyn, ei staff neu fi fod yn dysgu defnyddio technoleg newydd wrth baratoi?

**"Roedd y drafodaeth hon yn ddefnyddiol ar gyfer adolygu opsiynau technoleg. Fe roddodd fwy i'r tîm feddwl amdano... nid yw'r un ateb yn addas i bawb."**

## Dysgu gartref

Mae'n bwysig eich bod chi'n teimlo'n hyderus i gefnogi dysgu eich plentyn gartref. Fe allech chi ofyn y canlynol:

- Sut ydych chi'n sicrhau y bydd gwaith cartref yn cael ei ddarparu yn y fformat sydd orau gan fy mhlentyn ar yr un pryd â'i gyfoedion?
- A fydd ein technoleg gartref yn gydnaws â'r hyn a ddefnyddir yn yr ysgol?
- Oes unrhyw hyfforddiant ar gael i mi i gefnogi dysgu fy mhlentyn?
- Sut gallaf gefnogi sgiliau byw yn annibynnol, symudedd a chyfeiriadedd fy mhlentyn?

**"Yn y cyfarfod adolygu, roedd y Fframwaith yn ddefnyddiol iawn o ran tynnu sylw at rai pethau oedd wedi mynd yn angof."**



## Cydweithio

Mae lleoliadau addysg, athrawon a'r holl weithwyr proffesiynol o amgylch eich plentyn eisiau'r gorau iddo a dylech chi i gyd fod yn gweithio tuag at yr un nod, gydag anghenion y plentyn neu'r person ifanc yn ganolog i unrhyw sgwrs.

**"Does neb eisiau sathru traed rhywun arall ... ond fe all pethau fynd ar goll."**

Mae'r CFVI wedi'i gynllunio i ddarparu geirfa gyffredin fel bod y gweithwyr proffesiynol, rhieni / gofalwyr a'r plant a'r bobl ifanc eu hunain yn cymryd rhan yn yr un modd mewn sgyrsiau am addysg.

**"Mae'r Fframwaith yn tynnu pawb at ei gilydd."**



## Mwy o help

Gobeithio bod y CFVI – a'r canllaw yma – yn rhoi hyder, gwybodaeth ac ymwybyddiaeth gynyddol i rieni a gofalwyr i ddeall a thrafod anghenion addysgol eu plentyn, ond mae gwybodaeth, cyngor ac arweiniad ychwanegol ar gael bob amser.

Os ydych chi eisiau siarad â rhywun am eich amgylchiadau unigol, mae sefydliadau a all helpu. Gallwch gysylltu â Llinell Gymorth yr RNIB ar **0303 1239999** neu anfon e-bost at y tîm Plant, Pobl Ifanc, Teuluoedd ac Addysg ar

**cypf@rnib.org.uk**

Mae Swyddogion Cefnogi Teuluoedd yr RNIB yn darparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad arbenigol rhanbarthol. Rydym yn gweithio'n agos gyda phartneriaid ar draws y sector, felly gallwn gyfeirio teuluoedd at y sefydliadau a'r gwasanaethau sydd fwyaf perthnasol i'w hanghenion.

**"Bydd y CFVI yn dod â phob plentyn neu berson ifanc â nam ar ei olwg a'i riant neu ofalwr i mewn i gronfa gyffredin o wybodaeth a chefnogaeth, dim ots ble maen nhw'n byw na pha heriau eraill maen nhw'n eu hwynebu. Bydd yn gwneud cyfraniad amhrisiadwy i gymaint o blant a phobl ifanc ac yn eu helpu i gyflawni eu potensial."**

# Am yr Awduron

Mae **Laura Hughes** yn rhiant i oedolyn ifanc â nam ar ei golwg.

"Fe gawsom ni'r brwydrau arferol i sicrhau bod ei hanghenion yn cael eu diwallu, yn enwedig yn yr ysgol uwchradd ac yn y diwedd fe wnaethon ni ei symud hi i ysgol / coleg preswyl ar gyfer myfyrwyr â nam ar y golwg ac fe wnaeth hi ffynnu yno. Mae hi bellach yn fyfyrwraig meddygaeth yn ei 5ed blwyddyn. Rydw i'n rhedeg Moorvision, grŵp cefnogi yn Nyfnaint a Chernyw sy'n helpu teuluoedd eraill plant â nam ar y golwg."

**Daw Joanne** o Ogledd Cymru ac mae'n fam i ferch 13 oed sydd â nam difrifol ar y golwg.

"Mae gen i golled golwg hefyd. Rydw i wedi gorfod brwydro dros fy mhlentyn, o gael diagnosis cywir yn y blynyddoedd cynnar hyd at y gwaith parhaus i sicrhau bod y gefnogaeth gywir ar gael yn yr ysgol. Fe wnes i roi'r gorau i fy ngwaith er mwyn gallu rhoi fy holl amser i sicrhau bod fy mhlentyn yn cael yr hyn sydd arno ei angen ar yr amser iawn."

Mae **Karen Newell** yn Gydsylfaenydd ToyLikeMe ac yn fam i Fred (SSI) 12 oed ac Eva 14 oed.

"Mae'r RNIB wedi bod yn ddylanwad cadarnhaol yn ein bywyd ni bob amser ers diagnosis fy mab. Roeddwn i'n ddigon ffodus i gael cyfle i ailysgrifennu Canllaw Teganau a Chwarae yr RNIB, adnodd a oedd mor bwysig i mi fel mam yn y dyddiau cynnar. Mae'n bleser – nawr bod fy mab i yn yr ysgol uwchradd a llawer o gyfarfodydd EHCP yn ddiweddarach – cael cyfrannu rhywfaint at y CFVI. Fe hoffwn i pe bai hyn wedi bod yno i ni a gobeithio y bydd yn cefnogi llawer o deuluoedd i lywio'r systemau sydd mor hanfodol i alluogi ein plant ni i ffynnu a llwyddo."



# Cyfeiriadau

Hewett, R., Douglas, G., McLinden, M., James, L., Brydon, G., Chattaway, T., Cobb, R., Keil, S., Raisanen, S., Sutherland, C., Taylor, J. (2022). Fframwaith Cwricwlwm ar gyfer Plant a Phobl Ifanc â Nam ar y Golwg (CFVI): Diffinio datblygiad sgiliau arbenigol a chefnogi arfer gorau i hyrwyddo tegwch, cynhwysiant a gallu personol. Yr RNIB

Access to learning – learning to access model used courtesy of:

McLinden, M., Douglas, G., Hewett, R., Cobb, R., Keil, S., Lynch, P., Roe, J a Stewart Thistlethwaite, J. (2022), Promoting Equitable Access to Education for Children and Young People with Vision Impairment: A route-map for a balanced curriculum. Routledge.



RNIB

## Manylion cyswllt

cypf@rnib.org.uk

www.rnib.org.uk/cfvi

© RNIB registered charity in England and Wales (226227), Scotland (SC039316), Isle of Man (1226). Also operating in Northern Ireland.